***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 109 (Cy.22)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Ionawr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Ionawr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Chwefror 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 109C o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009. Daw i rym ar 19 Chwefror 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006(**3**) wedi'i ddiwygio'n unol â pharagraff (2).

(2) Yn erthygl 5, yn lle “30 Mehefin 2009”, rhodder “31 Rhagfyr 2009”.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

26 Ionawr 2009

(**1**) 2000 p.38.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006 p.32).
(**3**) O.S. 2006/2993 (Cy.280).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") ymhellach. Diwygiwyd Gorchymyn 2006 cyn hyn gan Orchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/1286 (Cy.135) ("Gorchymyn 2008").

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 5 o Orchymyn 2006, drwy newid y dyddiad, pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynllun trafnidiaeth lleol sy'n gymwys gael ei ddisodli, o 30 Mehefin 2009 i 31 Rhagfyr 2009. Yng Ngorchymyn 2008, diwygiwyd y dyddiad gwreiddiol, sef 30 Mehefin 2008 i 30 Mehefin 2009.

Cyflwynodd Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 fframwaith newydd ar gyfer cynllunio trafnidiaeth yng Nghymru. Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn gosod y cyfeiriad strategol cyffredinol. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dangos sut y cyflawnir y Strategaeth. Mae gofyn i'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'r diwygiad yn angenrheidiol oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.